**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-P/VG/1300/19

29 Mawrth 2019

Annwyl Gyfaill,

Rydym yn ysgrifennu ar y cyd at holl aelodau staff y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y paratoadau sydd ar y gweill i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Fel y byddwch wedi clywed, mae'n debyg, mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno i ymestyn Erthygl 50. Os na all Senedd y DU ddod i gytundeb, byddwn yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar 12 Ebrill. Os bydd Senedd y DU yn dod i gytundeb cyn 12 Ebrill, mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno i ymestyn ein dyddiad ymadael tan 22 Mai er mwyn pasio unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Rydym wedi nodi'n glir o'r dechrau y byddai Brexit heb gytundeb yn drychinebus i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er bod ymadael â'r UE gyda chytundeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU, mae'n fater gofid bod y posibilrwydd o gael Brexit anhrefnus, heb gytundeb yn parhau. Felly, rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn parhau i gynllunio ar gyfer pob digwyddiad posibl, ac yn benodol i sicrhau ein bod yn diogelu ac amddiffyn safonau ein gwasanaethau cyhoeddus os byddwn yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

**Cynlluniau wrth gefn**

I ddechrau, hoffem ddweud ein bod wir yn gwerthfawrogi'r holl ymdrechion yn eich sefydliadau ac ym mhob rhan o Gymru i baratoi ar gyfer sefyllfa bosibl heb gytundeb.

Rydym yn hyderus bod cynlluniau clir a chadarn wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu diogelu, cyn belled ag y bo modd, rhag unrhyw darfu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys paratoadau manwl ar gyfer unrhyw amhariad ar feddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol, nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn rhai clinigol, brechlynnau, gwaed ac organau, treialon clinigol, meinweoedd a chelloedd, bwyd, gwaith golchi, a thanwydd.

Mae hwn yn gyfnod ansicr, ond ein neges i chi yw y dylech barhau fel yr ydych, a gweithredu yn y modd arferol. Efallai y bydd angen gweithredu cynlluniau neu drefniadau gwaith eraill yn y misoedd nesaf, ond mae cynlluniau profedig wrth gefn ar gyfer hyn.

Gwyddwn mai'r hyn yr ydych chi'n canolbwyntio arno yw sicrhau iechyd a gofal cymdeithasol diogel o safon uchel i'r bobl hynny yr ydych yn eu cefnogi, ac felly rydym yn eich annog chi a'ch cydweithwyr i fod yn ofalus o ran eich cyngor iddynt, yn enwedig o ran gorarchebu meddyginiaeth neu roi presgripsiynau am ormod o feddyginiaeth. Nid oes angen pentyrru cyflenwadau yn lleol. Gall hyn achosi prinder a fydd wedyn yn peryglu'r rhai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

hynny sydd angen y feddyginiaeth. Rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth parhaus i dawelu meddwl y bobl yr ydych yn gofalu amdanynt ynglŷn â hyn.

**Hawliau staff iechyd a gofal cymdeithasol o'r UE a'r Cynllun Preswylydd Sefydlog**

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pwysig gwladolion yr UE wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd croeso bob amser i chi fyw a gweithio yng Nghymru. Os ydych yn wladolion o'r UE, rydym eisiau i chi aros a chael dyfodol diogel yma yng Nghymru a byddwn yn parhau i weithio yn agos gyda'r Swyddfa Gartref i sicrhau eich bod yn gwybod eich hawliau.

Rydym yn annog yr holl ddinasyddion o'r UE sy'n gweithio yn y sector ac yn byw yng Nghymru i wneud cais i'r cynllun Preswylydd Sefydlog sy'n agor ar 30 Mawrth 2019. Mae hwn ar gael ar sail 'preswylydd sefydlog' ar gyfer pobl sydd wedi bod yn y DU am bum mlynedd, neu 'statws preswylydd cyn-sefydlog' ar gyfer pobl sydd wedi byw yn y DU am hyd at bum mlynedd.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod gan bob dinesydd o'r UE yr wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i wneud cais dan y Cynllun. Gallwch weld gwybodaeth yn uniongyrchol drwy ddilyn y dolenni cyswllt cyflym hyn gan y Swyddfa Gartref:

- EU Settlement Scheme guidance
- Access assisted digital support
- ID document scanner locations
- Sign up to receive EU Citizen Email Alerts from the Home Office
- Sign up to receive the Community Bulletin
- European Temporary Leave to Remain Guidance

**Adnabod cymwysterau proffesiynol**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydnabyddiaeth gydfuddiannol o gymwysterau proffesiynol (MRPQ) ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn parhau i gefnogi symudiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob rhan o Ewrop.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi sefydlu deddfwriaeth sy'n golygu y bydd yr holl reoleiddwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i adnabod cymwysterau Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a Gofal Cymdeithasol Cymru.

I staff gofal iechyd neu ofal cymdeithasol, mae hyn yn golygu y gall gwladolion o'r UE sy'n gweithio yn y DU ar hyn o bryd barhau i wneud hynny. Mae'n golygu hefyd y bydd cofrestriad gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso yn yr UE yn parhau ar ôl y diwrnod ymadael, hyd yn oed os byddwn yn ymadael heb gytundeb. Gallwch gael manylion pellach gan eich corff proffesiynol perthnasol.

Beth bynnag yw eich cenedligrwydd, hoffem ddiolch i bob un ohonoch am eich cyfraniad parhaus i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel o ansawdd uchel yn eich cymunedau.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirproy Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services